# EIN CWRICWLWM/ OUR CURRICULUM



Ysgol Casmael
Puncheston School

YSGOL
LLANYCHLLWYDOG



Datblygu diwylliant o ysbrydoliaeth, tanio angerdd am ddysgu…

Developing a culture of inspiration, igniting a passion for learning…

"I ddarparu amgylchedd dysgu diogel, ysgogol a maethlon, lle mae unigolion yn cyrraedd eu potensial llawn; lle mae'r iaith Cymraeg a'r dreftadaeth Gymreig yn rhan annatod o fywyd bob dydd; lle mae'r ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu wedi'u hintegreiddio'n llawn, a'r holl gyfleoedd sydd ar gael ein hardal leol yn cael eu gwireddu'n llawn. "

YSGOL
LLANYCHLLWYDOG




'To provide a safe, stimulating, nurturing learning environment, where individuals reach their full potential; where the Welsh language and culture is celebrated and forms an integral part of daily life; where schools and the communities they serve are fully integrated, and all the opportunities afforded by learning in our local area are fully realised.'


Mae ein cwricwlwm wedi ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddarperir yn yr ysgol yn ateb gofynion ein cymuned leol a'n disgyblion. Mae ein cwricwlwm yn sicrhau bod pob dysgwr yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned ein hysgol, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r ysgol. Yn ein hysgol ni mae profiadau dysgu yn galluogi plant i fod yn greadigol, defnyddio'u dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas a deall sut mae pethau'n gweithio drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol sy'n hwyl ac yn berthnasol i lefel eu datblygiad. Mae'r cwricwlwm yn gytbwys ac yn eang ei sylfaen, ac yn ceisio hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, cymdeithasol ac emosiynol, meddyliol a chorfforol ein disgyblion, ac yn ceisio eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn.





Our curriculum has been developed to ensure that what is provided in the school meets the requirements of our local community and our pupils. Our curriculum ensures that all learners become full members of our school community, and have access to the wider curriculum and all the school's activities. In our school learning experiences enable children to be creative, use their imagination and have fun while learning. The children have opportunities to explore the world around them and understand how things work by taking part in practical activities that are fun and relevant to their level of development. The curriculum is balanced and broad-based, and seeks to promote the spiritual, moral, cultural, social and emotional, mental and physical development of our pupils, and seeks to prepare them for the opportunities, responsibilities and experiences of adult life.











Bydd ein dysgwyr yn iach ac yn hyderus, yn ddysgwyr gydol oes chwilfrydig a dyfeisgar sy'n cymryd rhan mewn materion byd-eang ac yn cyfrnnu atynt, ac yn ymarfer gwerthoedd craidd yr ysgol :parch, empathi, cyfrifoldb a chydweithreiad. Bydd ein dysgwyr yn meithrin hyder yn eu hunaniaeth wrth iddynt archwilio, arddangos, gwneud penderfyniadau a rhoi gwerth ar sgiliau a gwybodaeth a fydd yn eu cynorthwyo i fod yn ddinasyddion creadigol, moesegol, galluog a gwybodus yn eu cymunedau.

- Mae llais y plant yn holl-bwysig wrth fynd ar drywydd ymholi a chanfod gwybodaeth.

- Mae hapusrwydd a lles ein disgyblion wrth galon ein cwricwlwm - lles meddyliol a chorfforol

- Mae gweledigaeth ein cwricwlwm wedi ei wreiddio mewn Cymreictod, hunaniaeth, gwerthoedd a diwylliant Cymreig.

- O fewn ein cwricwlwm, mae pwyslais ar ddysgu trwy brofiad, trwy ddysgu yn ymarferol a dysgu tu allan.







Our learners will be healthy and confident, curious and resourceful lifelong learners who take part in global issues and contribute to them, and practice the school's core values: Respect, Responsibility, Resilience. Our learners will develop confidence in their identity as they explore, demonstrate, make decisions and value skills and knowledge that will help them to be creative, ethical, capable, empathetic and knowledgeable citizens in their communities.

- The children's voice is all-important when pursuing inquiry and finding information.

- The happiness and well-being of our pupils is at the heart of our curriculum - mental and physical well-being.

- The vision of our curriculum is rooted in Welshness, Welsh identity, values and Welsh culture.

- Within our curriculum, there is an emphasis on experiential learning, through hands-on and outdoor learning.

# Ein Gwerthoedd/Our Values

Caredigrwydd/Kindness

Cyfrifoldeb/Responsibility

Cymreictod/Welshness

Ceisio Gorau Glas/Doing your best



# Ein Cwriwclwm Cynhwysol



Bydd ein cwricwlwm yn codi dyheadau pob dysgwr. Yn ein hysgol rydym wedi ystyried y modd y bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wireddu'r pedwar diben ac i wneud cynnydd.



Rydym wedi ystyried ein darpariaeth ADY a'r modd y byddwn yn bodloni anghenion grwpiau gwahanol o ddysgwyr.

# Our Inclusive Curriculum.

Our curriculum will raise the aspirations for all our groups of learners. As a school we have considered how all learners will be supported to realise the four core purposes and to make progress.

We have considered our ALN provision and how we will meet the needs of different groups of learners.





# Y Pedwar Diben.

Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer cynllun cwricwlwm ein hysgol. Nod ein ysgol yw cefnogi ein dysgwyr i ddod yn :-

- ddysgwyr uchelgeisiol galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes.

- gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

- ddinsyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd.

- unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.












# The Four Core Puposes.

The purposes are the starting point and aspiration for our school curriculum design. Our school aims to support our learners to become :-

- ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives.

- enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work.

- ethical, informed citizens of Wales and the world.

- healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued member of society.








# Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig/ The Statements of What Matters

Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd cyfoethog a phrofiadau i ddatblygu'r cysyniadau allweddol, y wybodaeth a'r sgiliau fel y'u disgrifir yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac yn unol â Chod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig.

Our curriculum will provide opportunities and experiences to develop the key concepts, knowledge and skills as described in the statements of what matters and in line with the Statements of What Matters Code.

# Meysydd Dysgu a Phrofiad/Areas of Learning and Experiences



Bydd ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu trwy'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae'r cwricwlwm wedi'i lunio ar sail y chwe maes hwn i ategu a hyrwyddo datblygiad lles personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol pob plentyn. Cynlluniwyd pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad i helpu dysgwyr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm, ac maent yn darparu'r man cychwyn a'r dyhead wrth ddatblygu cwricwlwm ar lefel ysgol.



Our curriculum will provide learning experiences through the six Learning and Experience Areas. The curriculum has been drawn up on the basis of these six areas to complement and promote the development of the personal, social, emotional, physical and intellectual well-being of each child. All of the areas of learning and experience are designed to help learners realize the four purposes of the curriculum, and they provide the starting point and the aspiration when developing a curriculum at school level.


Celfeddydau Mynegiannol
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Mathemateg a Rhifedd
Y Dyniaethau
Iechyd a Lles






Expressive Arts
Language, Literacy and Communication
Science and Technology
Mathematics and Numeracy
Humanities
Health and Wellbeing

# Dysgu, Cynnydd ac Asesu





**Bydd ein cwricwlwm yn cefnogi dysgu drwy gynllunio cyfleoedd dysgu sy'n tynnu ar yr egwyddorion addysgegol. Mae ein cwricwlwm, a ategir gan addysgu ac addysgu effeithiol, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon. Dros amser bydd ein dysgwyr yn datblygu a gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddeall yr hyn y mae'n ei olygu i wneud cynnydd mewn maes neu ddisgyblaeth benodol, a'r modd y dylai dysgwyr ddyfnhau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, eu sgiliau a'u galluoedd, a'u priodoleddau a'u tueddiadau,ac mae'n cael e lywio gan y Cod Cynnydd. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi'r modd yr ydym yn mynd ati i asesu, a'i ddiben yw llywio gwaith cynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Bydd asesu'n cael ei wreiddio fel rhan gynhend o ddysgu ac addysgu. Bydd pob dysgwr yn cael ei asesu ar fynediad i'r ysgol. Gwahoddir y rhieni i Nosweithiau Rhieni yn nhymhorau'r Hydref a'r Gwanwyn a dosberthir adroddiad ysgrifenedig ar gynnydd y disgyblion ar ddiwedd tymor yr Haf. Mae croeso i rieni ymweld â'r ysgol i ymdrin â unrhyw broblemau a allai godi.**

# Learning Progression and Assessment

**Our curriculum will support learning by planning learning opportunities that draw on the pedagogical principles. Our curriculum, supported by effective teaching and learning, enables learners to make meaningful progress. Over time our learners will develop and improve their skills and knowledge. Our curriculum focuses on understanding what it means to make progress in a particular field or discipline, and how learners should deepen and expand their knowledge and understanding, their skills and abilities, and u attributes and their tendencies, and it is guided by the Code of Progress. This in turn supports the way we approach assessment, the purpose of which is to guide planning for future learning. Assessment will be embedded as an integral part of learning and teaching. All learners will be assessed on entry to the school. The parents are invited to Parents' Nights in the Autumn and Spring terms and a written report on the pupils' progress is distributed at the end of the Summer term. Parents are welcome to visit the school at a convenient time to discuss any concerns or problems.**

# Cymraeg a Saesneg/Welsh and English

**Fel ysgol cyfrwng Cymraeg, y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ac fe'i defnyddir ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith y Cyfnod Sylfaen, er mwyn i'r plant gael sylfaen gadarn yn yr iaith. Defnyddir y Saesneg ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar. Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yn yr adrannau Iau a chyflwynir y Saesneg ym mlwyddyn 3 er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfle i ddatblygu'n gwbl ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol yn 11 oed.**

**As a Welsh medium school, Welsh is the school's official language and is used in all aspects of the curriculum. Welsh is the main medium of life and work in the Foundation Phase, so that the children have a solid foundation in the language. English is used at times to ensure understanding during the early immersion period. Welsh is the main medium of life and work in the Junior sections and English is introduced in year 3 to ensure that the pupils have the opportunity to develop fully bilingual by the time they leave school at the age of 11.**

# Sgiliau trawsgwricwlaidd

Bydd ein cwricwlwm yn datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn a'u hymestyn a'u cymhwyso ar draws pob Maes. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i wneud y canlynol:



- datblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu



- gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd
bywyd go iawn

- bod yn hyderus yn eu defnydd o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd

# Cross curricular skills

Our curriculum will develop <u>the mandatory cross-curricular skills</u> of literacy, numeracy and digital competence. Our curriculum will enable learners to develop competence and capability in these skills and to extend and apply them across all Areas. Learners will be given opportunities across the curriculum to:

- develop listening, reading, speaking and writing skills

- be able to use numbers and solve problems in real-life situations

- be confident users of a range of technologies to help them function and communicate effectively and make sense of the world







## Hawliau Dynol

**Bydd ein hysgol yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â Rhan 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ymhlith y rheiny sy'n darparu'r addysgu a'r dysguUNCRC / UNCPRD**

## Human Rights

**Our school will promote knowledge and understanding of Part 1 of the UNCRC, and of the UNCRPD, among those who provide teaching and learning.**

## Addysg Gyrfaeodd a Phrofiadau sy’n gysylltedig â byd gwaith

**Bydd ein cwricwlwm yn ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer ein holl ddysgwyr.**

## Careers and Work RelatedExperiences (CWRE)

**Our curriculum will incorporate careers and work related experiences for all of our learners.**

# Addysg Cydberthyn a Rhywioldeb

**Mae cwricwlwm ein hysgol yn coleddu'r arweiniad a geir yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg ein dysgwyr, a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben trwy ddull ysgol gyfan. Helpu dysgwyr i feithrin a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd, yw sylfaen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad llesiant emosiynol, cadernid ac empathi.**

**Bydd nyrs yr ysgol yn ymweld â phlant blwyddyn 5 a 6 yn ystod tymor yr haf . Bydd y Nyrs yn trafod datblygiad y corff, mewn modd addas i deimladau ac aeddfedrwydd y plant. Mae croeso i rieni gwrdd â Nyrs yr ysgol ymlaen llaw i drafod ac i weld y deunydd a ddefnyddir mewn cysylltiad ag Addysg Rhyw.**

# Relationships and Sexual Education

Our school curriculum embraces the guidance in the RSE Code. Our RSE provision will have a positive and empowering role in our learners' education and will play a vital role in supporting them to realise the four purposes as part of a *whole-school approach*. Helping learners to form and maintain a range of relationships, all based on mutual trust and respect, is the foundation of RSE. These relationships are critical to the development of emotional well-being, resilience and empathy.

The school nurse will continue to visit year 5 and 6 children during the summer term. The Nurse will discuss the development of the body in a manner suitable to the feelings and maturity of the children. Parents are welcome to meet with the school Nurse beforehand to discuss and to see the material used in connection with Sex Education.








**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad statudol yn Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.

**Nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn** yn ôl o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Cwricwlwm i Gymru.

Gan fod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur y cytunwyd arno yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn yr awdurdod lleol, a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.




**RVE**

Religion, values and ethics (RVE) is a statutory requirement of the Curriculum for Wales and is mandatory for all learners from ages 3 to 16.

There is **no parental right** to request that a child is withdrawn from RVE in the Curriculum for Wales

As RVE is a locally determined subject, the agreed syllabus specifies what should be taught in RVE within the local authority and our curriculum will reflect this guidance.

**Adolygu a mireinio**

Bydd cwricwlwm ein hysgol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i allbynnau ymholi proffesiynol, anghenion newidiol y dysgwyr, a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.

**Review and refinement**

Our school curriculum will be kept under review in order to respond to the outputs of professional inquiry, the changing needs of learners and social contexts and needs. The reviews will take into account the views of stakeholders and will be signed off by the Governing Body. We will publish a summary of our curriculum and revise the summary if changes to the curriculum are made during the review process.



**Pennaeth/Head teacher: Mrs. Amanda Lawrence**
**Cadeirydd y Llywodraethwyr/Chair of Governors: Mr. Russel Evans**

"Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm eithriadol o symbylus a chreadigol i'r disgyblion, sydd yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus iawn ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae'r ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog, sy'n hanu o syniadau'r disgyblion, ac yn seiliedig ar themâu byrlymus, yn llwyddo i gymell bron pob dysgwr i wneud cynnydd uchel yn eu medrau yn gyson. Mae'r staff yn sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei gyfoethogi yn effeithiol iawn drwy ddefnydd cyson o arbenigwyr, ymwelwyr ac ymweliadau. Er enghraifft, trefnwyd i blant dreulio amser gyda 'Barti Ddu' yn ddiweddar, yn trin a thrafod adnoddau y cyfnod, a blasu gwahanol fathau o de."

"Mae athrawon yn defnyddio mewnbwn y disgyblion i gynllunio'n hynod greadigol er mwyn darparu cyfleoedd bwriadus a chydlynus i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn fedrus ar draws cwricwlwm. Maent yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd cyson i atgyfnerthu eu medrau ac i wneud cysylltiadau ystyrlon yn eu dysgu. Enghraifft arbennig o hyn yw'r prosiect hanesyddol 'Ysgol Casmael yn Cofio'. Elwodd y disgyblion yn fawr o'r cyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth hanesyddol am yr ardal trwy weithio gydag aelodau o'r gymuned a bardd enwog i greu gwaith nodedig trwy amryw gyfryngau."

Estyn


"Mae'r dulliau effeithiol o gynllunio yn paratoi'r staff a'r disgyblion yn dda ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru, maes o law. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2 ddatblygu ystod o fedrau yn hyfedr wrth iddynt gynllunio tasgau ac arwain yr addysgu ymhlith eu cyfoedion. Mae hyn yn datblygu disgyblion fel unigolion uchelgeisiol, hyderus a gwybodus."

"Teachers provide an exceptionally stimulating and creative curriculum for pupils, which develops their skills very successfully across all areas of learning. The wide range of rich learning experiences, which derives from pupils' ideas and is based on exciting themes, succeeds in motivating nearly all pupils to make strong progress in their skills consistently. Staff ensure that the curriculum is enriched very effectively through the regular use of experts, visitors and visits. For example, arrangements were made for pupils to spend time with 'Barti Ddu' recently, to discuss resources from the period and taste different types of tea. "

"Teachers use pupils' input to plan highly creatively in order to provide purposeful and coherent opportunities to develop their literacy, numeracy and information and communication technology (ICT) skills skilfully across the curriculum. They ensure that they are given regular opportunities to reinforce their skills and make meaningful links in their learning. An excellent example of this is the historical project, 'Ysgol Casmael yn Cofio' ('Puncheston School Remembers'). Pupils benefitted greatly from opportunities to develop their historical knowledge of the area by working with members of the community and a famous poet to create notable work through various media."

Estyn

"Effective planning methods are preparing staff and pupils well to introduce the new curriculum for Wales in due course. Staff provide opportunities for pupils at the top of key stage 2 to develop a range of skills proficiently, as they plan tasks and lead teaching among their peers. This develops pupils as ambitious, confident and knowledgeable individuals."




Y Syniad Enfawr/
The Big Idea
W.M 1
W.M 2
W.M 3
Canlyniad/
Perfformiad
Outcome/
Perfomance

Mae cymunedau yn cael eu ffurfio gan wyliau a dathliadau.

Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg

Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.

Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.



Mae cymunedau yn cael eu ffurfio gan wyliau a dathliadau/Communities are shaped by festivals and celebrations

Literacy fires the imagination

Human societies are complex and diverse and shaped by human actions and beliefs

How we engage with social influences shapes who we are and effects our health and well being

